



Royal College
of Physicians

Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)

Ymweliad yr RCP ag Ysbyty Athrofaol Y Faenor

Adolygiad dilynol

Ebrill 2022

Ddydd Llun 21 Mehefin 2021, cynhaliodd meddygon ymgynghorol a meddygon dan hyfforddiant sy'n gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) ymweliad rhithiol gan Dr Andrew Goddard, Llywydd Coleg Brenhinol y Meddygon, Dr Cathryn Edwards, cofrestrydd Coleg Brenhinol y Meddygon, a Dr Olwen Williams, Is Lywydd Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru. Bwriad yr adroddiad atodol, a gyhoeddwyd ar 17 Awst, oedd rhoi trosolwg o'r trafodaethau a rhai argymhellion adeiladol i'r bwrdd iechyd a chlinigwyr yn ne ddwyrain Cymru.

Cipolwg ar brofiadau meddygon ymgynghorol a meddygon dan hyfforddiant oedd yr adroddiad hwn, a luniwyd ar ôl i nifer o gydweithwyr roi adborth uniongyrchol i ni. Mae Coleg Brenhinol y Meddygon yn sefydliad ag aelodau: ei nodau yw addysgu, gwella a dylanwadu i sicrhau gofal o'r ansawdd uchaf i gleifion. Nid oes gennym unrhyw swyddogaeth reoliadol na swyddogaeth archwilio ysbytai: ein nod yw amlygu safbwyntiau clinigwyr o bob gradd a chynnig atebion sy'n seiliedig ar ein profiad o gydweithwyr proffesiynol ledled y wlad.

Ar 1 Hydref, fe wnaethom dderbyn cynllun gweithredu a llythyr eglurhaol wrth gyfarwyddwr meddygol gweithredol BIPAB, Dr James Calvert. Mae'r bwrdd iechyd wedi datblygu matrices o gamau wrth ymateb i adroddiad Coleg Brenhinol y Meddygon, ac mae'n galonogol gwybod bod ymgysylltu rheolaidd gyda chlinigwyr lleol wedi dechrau.

Mae Dr Calvert wedi cydnabod y meysydd sydd o bryder allweddol yn adroddiad Coleg Brenhinol y Meddygon, ac wedi rhoi sicrwydd y bydd y bwrdd iechyd yn blaenoriaethu llesiant staff. Mae'n galonogol hefyd bod y bwrdd iechyd wedi ymrwymo i ddatblygu llwybrau gofal yn gyflym ar gyfer cleifion sâl sy'n dod i'r unedau mân anafiadau yn Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Ystrad Fawr. Mae cyllid bellach yn ei le ar gyfer gwasanaeth i bobl fregus wrth y drws ffrynt a fydd yn dechrau ar gyfnod prawf nes ymlaen yn 2022.

Mae'n bwysig cofio bod ein hadborth gwreiddiol wedi nodi bod meddygon ymgynghorol lleol yn bositif am y cyfleoedd posib o ran addysg feddygol, a theimlai meddygon iau a chymdeithion meddygol eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cyd feddygon ymgynghorol. Soniwyd hefyd bod meddygon ymgynghorol a meddygon dan hyfforddiant wedi canmol y gwasanaethau cymorth llesiant ac iechyd meddwl a ddarparwyd yn ystod y pandemig.

Mae materion cadw staff, morâl, galw gan gleifion, capasiti staff, llwyth gwaith a gorflino dal i fodoli, ac wedi gwaethygu yn sgil digwyddiadau'r 2 flynedd ddiwethaf. Mae nifer o'r heriau sy'n wynebu BIPAB i'w gweld mewn ysbytai ledled Cymru, ac yn wir, ar draws y DU. Mae Coleg Brenhinol y Meddygon wastad yn awyddus i gefnogi ymgysylltu clinigol agored a thryloyw, a lle gallwn gydweithio â byrddau iechyd, fe wnawn ein gorau glas i helpu.

Dr Olwen Williams OBE

Is Lywydd Cymru, Coleg Brenhinol y Meddygon Meddyg ymgynghorol mewn iechyd rhywiol a meddyginiaeth HIV

gyda

Dr Vivek Goel

Cynghorydd rhanbarthol Coleg Brenhinol y Meddygon ar gyfer de ddwyrain Cymru

Dr Mick Kumwenda

Cynghorydd rhanbarthol Coleg Brenhinol y Meddygon ar gyfer gogledd Cymru

Dr Hilary Williams

Cynghorydd rhanbarthol Coleg Brenhinol y Meddygon ar gyfer de ddwyrain Cymru

Dr Sam Rice

Cynghorydd rhanbarthol Coleg Brenhinol y Meddygon ar gyfer de orllewin Cymru

Cynnydd hyd yma

Yn yr adolygiad dilynol hwn, amlinellwn y cynnydd calonogol sydd wedi'i wneud hyd yma (fel yr amlinellwyd yng nghynllun gweithredu'r bwrdd iechyd, gyda strategaethau ariannu a recriwtio y cytunwyd arnynt). Rydym yn falch o allu dweud bod y bwrdd iechyd wedi:

- > cymeradwyo buddsoddiad £1.5 miliwn i recriwtio staff rheng flaen newydd
- > adolygu'r model staffio meddygol cyfredol ochr yn ochr â safonau Coleg Brenhinol y Meddygon
- > datblygu strategaeth recriwtio i ddiwallu'r bwlch staffio
- > ymrwymo i adolygiad o brosesau ymgysylltu ac ymgynghori gydag uwch staff clinigol
- > datblygu rhaglen gymorth i raddedigion meddygol rhwyngladol
- > dod â chanlyniadau arolygon llesiant staff amrywiol at ei gilydd i lywio rhaglen ymgysylltu 12 mis gyda chyfranogiad gweithredol
- > penodi cymrawd clinigol ar gyfer arweinyddiaeth a llesiant meddygon iau
- > agor 'ystafell gysur i staff' yn y Grange a chymeradwyo £1 miliwn ar gyfer mentrau llesiant staff
- > datblygu cynlluniau ar gyfer darpariaeth gofal brys yr un dydd yn y Grange
- > cynnal adolygiad staffio yn y ganolfan lif
- > ymrwymo i ailymweld â'r model gofal meddyginiaeth mewnol cyffredinol yn y Grange
- > datblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaeth i bobl fregus wrth y drws ffrynt i ddechrau gyda chyfnod prawf yng ngwanwyn 2022
- > ymrwymo i adolygu'r model clinigol ar gyfer uwchgyfeirio yn Ysbyty Nevill Hall (YNH)
- > ymrwymo i fynd i'r afael â chleifion pediatrig sy'n galw-i-mewn yn YNH a'r Gwent
- > egluro na ddylid cyfeirio cleifion i lawr at safleoedd ysbytai cyffredinol lleol estynedig y tu allan i'r oriau craidd, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol ac ar ôl asesiad risg
- > ail-bwysleisio ymrwymiad i gynnwys cleifion wrth adolygu perfformiad llwybrau gofal drwy weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Iechyd Cymuned
- > ceisio penodi cymrawd clinigol mewn hyfforddiant efelychu
- > cyflwyno rhaglenni addysgu newydd a phecynnau cynefino arbenigol lleol
- > ailgynllunio'r broses gynefino corfforaethol ar gyfer staff meddygol iau
- > cyfethol meddygon dan hyfforddiant i sawl pwyllgor adrannol, llywodraethu ac ar lefel ysbytai
- > ymrwymo i gyfarfodydd rheolaidd rhwng y cyfarwyddwr meddygol gweithredol a choleg lleol Coleg Brenhinol y Meddygon a thîm cyswllt tiwtoriaid y coleg.

Argymhellion pellach

- > Dylai'r bwrdd iechyd flaenoriaethu recriwtio clinigwyr addas a staff iau ychwanegol i gefnogi cofrestrdyddion meddygol o ran derbyniadau cleifion acíwt yn Nevill Hall.
- > Dylai llwybrau a phrotocolau ar gyfer cleifion sy'n galw-i-mewn heb anhwylder meddygol gael eu hegluro gyda'r timau MAU a MIU yn y safleoedd ysbytai cyffredinol lleol estynedig gydag archwiliad rheolaidd ar ôl hynny.
- > Dylai'r bwrdd iechyd gasglu data am faint o gleifion sy'n galw-i-mewn yn amhriodol y tu hwnt i Ysbyty Prifysgol y Grange. Os yw hyn yn digwydd yn barod, dylid cyhoeddi'r data hwn yn rheolaidd mewn ffordd hygyrch ochr yn ochr ag unrhyw ddata a gesglir gan y ganolfan lif ar drosglwyddo cleifion sy'n galw-i-mewn yn amhriodol.
- > Dylai Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi sicrwydd i feddygon dan hyfforddiant ynglŷn â gofynion y portffolio a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chymradwyo offeryn asesu gofal acíwt.
- > Dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda staff gofal iechyd i gasglu data ar yr oriau ychwanegol sydd wedi'u gweithio a gweithredu ar y canfyddiadau. Dylai hyn gael ei gyfathrebu'n glir gyda phob aelod o staff.
- > Dylai'r bwrdd iechyd fod yn ymwybodol o'r risg i gyfleoedd addysg ar gyfer meddygon IMT3 a bod yn rhagweithiol wrth wneud popeth o fewn eu gallu i liniaru hyn.

Mae nifer o'r argymhellion a wnaethom ym mis Awst 2021 yn parhau i fod yn berthnasol a byddem yn annog y bwrdd iechyd i barhau i weithio tuag at fodloni'r argymhellion hyn fel mater o flaenoriaeth:

- > Ni ddylai unrhyw feddyg meddygol fyth fod yn gysylltiedig â thrin claf paediatreg unrhyw bryd, o dan unrhyw amgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys cleifion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed na ddylid eu rheoli mewn uned asesu meddygol i oedolion.
- > Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddarpariaeth o feddyginiaeth gyffredinol a gofal meddyginiaeth yr henoed/pobl fregus yn y Grange fel rhan o adolygiad ehangach o'r model gofal Dyfodol Clinigol, gyda phwyslais ar wella canlyniadau i gleifion ar gyfer pobl eiddil hŷn, ac ehangu'r cyfleoedd hyfforddi meddygol sydd ar gael i feddygon iau yn y Grange.

Canfyddiadau ac argymhellion gwreiddiol

Isod rydym wedi nodi'r argymhellion a wnaed i'r bwrdd iechyd yn adroddiad ymweliad llywydd Coleg Brenhinol y Meddygon, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021.

Prif ganfyddiadau

- > Roedd meddygon ymgynghorol yn bositif ynglŷn â'r cyfleoedd posib o ran addysg feddygol.
- > Teimlai meddygon iau a chymdeithion meddygol eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cyd feddygon ymgynghorol.
- > Mae model y brif ganolfan a lloerennau yn gweithio'n dda i gleifion sydd ag un cyflwr arbenigol.
- > Dywedodd meddygon ymgynghorol a meddygon dan hyfforddiant wrthym fod gwasanaethau cymorth llesiant ac iechyd meddwl yn ystod y pandemig wedi cael derbyniad da iawn yn y bwrdd iechyd.
- > Roedd perthynas waith gref, a chyd-gefnogaeth, rhwng meddygon iau a chymdeithion meddygol, sy'n galonogol iawn.
- > Roedd llwyth gwaith gormodol a diffyg staffio difrifol yn themâu allweddol yn ystod yr ymweliad, gan arwain at bryderon diogelwch difrifol iawn i gleifion y Grange.
- > Teimlai meddygon dan hyfforddiant eu bod wedi'u gorweithio, yn annigol a heb gefnogaeth rheolwyr yr ysbyty a'r bwrdd iechyd.
- > Mae diffyg meddyginiaeth a gofal cyffredinol o feddyginiaeth pobl oedranus yn y Grange yn debygol o gael effaith negyddol ar ansawdd gofal cleifion ar gyfer pobl hŷn ac eiddil yn y dyfodol.
- > Adeg ein hymweliad, roedd protocolau yn dal i restru'r cofrestrydd meddygol fel yr un oedd yn gyfrifol yn y pen draw am gleifion sy'n galw-i-mewn heb anhwylder meddygol. Mae hyn yn annerbyniol.
- > Cafwyd ymdeimlad cryf o ddicter, rhwystredigaeth ac anhapusrwydd ynglŷn â diffyg ymddangosiadol ymgysylltiad a gweithredu clinigol go iawn wrth y bwrdd iechyd.
- > Roedd meddygon dan hyfforddiant yn benodol yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, er iddynt ddweud wrthym eu bod wedi mynychu

cyfarfodydd dro ar ôl tro lle cafodd pryderon am ddiogelwch cleifion eu codi, gydag uwch reolwyr yn addo gweithredu.

- > Teimlai ambell feddyg ymgynghorol yn ddigalon ac wedi'u siomi, ac yn ystyried gadael y bwrdd iechyd.

Argymhellion

Diogelwch, gofal a llif cleifion

- > Dylai grwpiau sy'n cynrychioli cleifion, gan gynnwys y cyngor iechyd cymuned lleol, gael eu hannog a'u cefnogi i gynnal adolygiad, o dan arweiniad cleifion, o fodel clinigol BIPAB.
- > Rhaid i lwybrau clinigol cadarn i reoli cleifion sâl sy'n galw-i-mewn ar safleoedd ysbytai cyffredinol lleol estynedig gael eu cyd-gynhyrchu gyda meddygon dan hyfforddiant a meddygon ymgynghorol. Dylid sefydlu meysydd sefydlogi priodol ym mhob ysbyty cyffredinol lleol estynedig gyda mynediad at gymorth anadlu anffewnwithiol a chanllawiau clir ar gyfrifoldebau staffio. Dylai telemetreg cardiaidd gael ei ddarparu mewn ysbytai cyffredinol lleol estynedig.
- > Dylai gofal brys yr un dydd gael ei ddatblygu a'i ehangu ar draws BIPAB.
- > Ni ddylid cyfeirio cleifion i lawr o'r Grange yng nghanol nos (ar ôl 9pm). Dylai'r bwrdd iechyd archwilio a chofnodi symudiadau cleifion rhwng wardiau a safleoedd. Dylid enwebu arweinydd clinigol ar bob shift, i roi trosolwg o'r cam-i-lawr, trosglwyddo cleifion a'r broses drosglwyddo.
- > Dylai niferoedd staffio meddygol gael eu hadolygu drwy ddefnyddio [Canllawiau Coleg Brenhinol y Meddygon ar staffio meddygol diogel](#) a defnyddio data realistig ar gyfer niferoedd gwlaŷ a llif cleifion.
- > Dylai model y ganolfan lif gael ei adolygu'n gyson, gydag arweinwyr clinigol yn cyflwyno i feddygon dan hyfforddiant, gan ofyn am adborth a syniadau, ac ailgynllunio llwybrau. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y gymysgedd, lefel a phrofiad staff yn y ganolfan lif, gan gynnwys shiftiau y tu allan i oriau a shiftiau dros nos, ac annog staff y ganolfan lif a pharafeddygon i ofyn am gyngor cofrestryddion meddygol ysbytai cyffredinol lleol estynedig am atgyfeiriadau priodol.

Arweinyddiaeth, rheoli ac atebolrwydd

- > Dylai meddygon dan hyfforddiant gael cynrychiolaeth ar lefel uwch reolwyr. Rhaid i swyddogion gweithredol y bwrdd iechyd gwrdd â meddygon dan hyfforddiant, gwrandao ar eu pryderon a chymryd camau go iawn i ddod o hyd i atebion. Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnwys yr holl glinigwyr mewn unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol, a hynny mewn ffordd ddilys, adeiladol ac agored, a chyfathrebu'n fwy agored ac yn amlach gyda chlinigwyr.
- > Lle codir pryderon, dylid cyfathrebu mewn ffordd dryloyw. Dylid rhannu adborth cynhwysfawr gyda'r meddyg ynglŷn â chanlyniad yr uwch-gyfeirio.

Llesiant ac iechyd meddwl y gweithlu

- > Dylai'r bwrdd iechyd benodi uwch arweinydd penodol ar gyfer llesiant y gweithlu, sy'n rhagweithiol wrth weithio gyda meddygon dan hyfforddiant a chymdeithion meddygol i fod yn eiriol dros lesiant ar lefel uwch reolwyr.
- > Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod 'ystafelloedd cysur i staff' ym mhob un o'i ysbytai. [Gyda'r un gyntaf yn Ysbyty Nevill Hall yn BIPAB](#), mae'r rhain yn cynnig gofod diogel i weithwyr iechyd proffesiynol ddod o hyd i gysur, heddwch a thawelwch yn ystod sefyllfa brysur, llawn straen neu drawmatig.
- > Rhaid gwella mynediad trafndiaeth i'r Grange ar gyfer cleifion a meddygon dan hyfforddiant. Dylai'r bwrdd iechyd dalu am gostau teithio meddygon sy'n gorfod gweithio rhwng dau safle BIPAB ar yr un dydd.

- > Rhaid i'r bwrdd iechyd weithio gyda'i glinigwyr i greu ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth yn y Grange. Mae newidiadau wedi digwydd mewn cyd-destun anodd a phrysur, ac mae hyn wedi cyfrannu at ymdeimlad o anesmwythder a theimlo'n ynysig ymhlith clinigwyr.

Addysg a hyfforddiant meddygol

- > Rhaid i'r bwrdd iechyd roi pwyslais o'r newydd ar addysg, hyfforddiant ac ymchwil drwy sicrhau y neilltuir amser i feddygon dan hyfforddiant fynychu clinigau cleifion allanol a chlustnodi amser bob wythnos am addysg 'heb sŵn y bîp', a chynnal prosiectau archwilio, ymchwil a gwella ansawdd.
- > Dylai fod pwyslais cryf ar hyfforddiant efelychu in-situ ar draws pob safle, gyda phwyslais arbennig ar efelychu protocolau safleoedd ysbytai cyffredinol lleol estynedig. Dylai cymrawd clinigol arwain ar hyn.
- > Dylai adran ymchwil a datblygu'r bwrdd iechyd wella'r cyfathrebu a'r ymgysylltu â meddygon ymgynghorol, meddygon dan hyfforddiant a chymdeithion meddygol, ac annog clinigwyr i gymryd rhan mewn ymchwil ac arloesi.

Nod Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) yw llywio gwelliannau mewn iechyd a gofal iechyd drwy eirioli, addysg ac ymchwil. Fel sefydliad clinigol annibynnol sy'n canolbwyntio ar gleifion, mae ein 40,000 o aelodau ar draws y byd, gan gynnwys 1,450 yng Nghymru, yn gweithio mewn ysbytai a'r gymuned ar draws 30 o arbenigeddau gwahanol. Yng Nghymru, rydym yn trefnu cynadleddau ac addysg o ansawdd uchel, ac rydym yn ymgyrchu am welliannau i ofal iechyd, addysg feddygol ac iechyd y cyhoedd.

wales@rcp.ac.uk
www.rcp.ac.uk/wales
@RCPWales

© Coleg Brenhinol y Meddygon Ebrill 2022



**Royal College
of Physicians**

Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)